## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gofyniad i gael cymeradwyaeth ar gyfer systemau draenio cynaliadwy, ac archiadau i'w mabwysiadu, o dan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29) ("y Ddeddf").

Mae erthygl 3 yn darparu nad yw mathau penodol o waith adeiladu i'w trin fel pe bai oblygiadau iddynt o ran draenio.

Mae erthygl 4(1) yn darparu bod gwaith adeiladu nad oes angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn cael ei eithrio rhag y gofyniad ym mharagraff 7 (gofyniad i gael cymeradwyaeth) o Atodlen 3 i'r Ddeddf. Mae erthygl 4(2) yn darparu nad yw'r eithriad yn gymwys pan fo gan y gwaith adeiladu arwynebedd o 100 metr sgwâr neu fwy.

Mae erthygl 5(1) yn darparu, pan fo angen caniatâd cynllunio mewn perthynas â gwaith adeiladu, a bod y caniatâd yn cael ei roi, neu pan fo awdurdod cynllunio yn cael cais dilys am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu cyn 7 Ionawr 2019 (dyddiad dod i rym y Gorchymyn hwn), nid yw'r gofyniad i gael cymeradwyaeth yn gymwys.

Mae erthygl 5(1) wedi ei hamodi gan erthygl 5(2), sy'n darparu nad yw'r eithriad yn erthygl 5(1) yn gymwys pan fo caniatâd cynllunio wedi ei roi yn ddarostyngedig i fater a gedwir yn ôl, ac nad yw cais am gymeradwyaeth ar gyfer y mater a gedwir yn ôl yn cael ei wneud o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 7 Ionawr 2019.

Mae erthygl 6 yn darparu bod gwaith adeiladu sy'n cynnwys adeiladu un tŷ annedd, neu fath arall o adeilad, ar arwynebedd o 100 metr sgwâr neu lai, pa un a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio, wedi ei eithrio o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth.

Mae erthygl 7(1) yn darparu bod rhaid i gorff cymeradwyo benderfynu ar archiad i fabwysiadu system ddraenio o fewn 8 wythnos o gael yr archiad, neu unrhyw gyfnod hwy y cytunwyd arni gan y corff cymeradwyo a'r datblygwr, cyn i'r cyfnod cychwynnol o 8 wythnos ddod i ben.

Mae erthygl 7(2) yn darparu y tybir bod methiant corff cymeradwyo i benderfynu ar archiad o fewn y cyfnod a bennir yn erthygl 7(1) yn archiad a wrthodir.

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol, o ran Cymru, o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.